

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL) (FFYRDD CYFYNGEDIG A
THERFYN CYFLYMDER 30 MYA) (DIWYGIAD Rhif 4) 2022**

Rhoddir HYSBYSIAD drwy hyn bod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn o dan Adrannau 82, 83 ac 84 a rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"), a fydd yn diwygio 'Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig a Therfyn Cyflymder o 30mya) 2017' fel bod, yn Atodlen 1 a 2, y canlynol yn berthnasol:

Atodlen 1 – Ffyrdd Cyfyngedig (30mya yn berthnasol)

1. Yn Atodlen 1, mewnosodwch:

1.32A.0	Hodgeston		
	U6341		O bwynt 242 metr i'r de o'r gyffordd â'r A4139 (G).
	U6341 Church View		O'r gyffordd â'r A4139 (D) i bwynt 102 metr i'r gorllewin.

Atodlen 2 – Terfyn Cyflymder o 30mya

2. Yn Atodlen 2, mewnosodwch:

2.15A.0	Hodgeston		
	A4139		O'r gyffordd â'r U6341, i'r gorllewin am 110 metr a 244 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r U6341 Church View.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu hyrwyddo yn dilyn adolygiad terfyn cyflymder trwy'r pentref.

Ceir manylion llawn yn y Gorchymyn drafft, y gellir edrych arno ar-lein, ynghyd â map yn dangos y rhannau o'r ffordd yr effeithir arnynt, yn

<https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd>

Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig anfon datganiad ysgrifenedig sy'n nodi ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiad at yr unigolyn sydd â'i enw isod erbyn 6 Gorffennaf 2022. Dyfynnwch: Hodge S/L

Dyddiedig y 15fed diwrnod hwn o fis Mehefin 2022

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd



Hodgeston

Map produced on: 11 November 2021

Proposed Introduction of a 30mph speed limit through Hodgeston

Scale (A3 Print)
1:1250



Datganiad o'r Rheswm

Bydd y terfyn cyflymder 30mya arfaethedig yn cael ei gyflwyno i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cyflymder cerbydau a phryderon diogelwch drwy bentref Hodgston ac yn dilyn adolygiad ac asesiad o'r terfyn cyflymder. Roedd yr adolygiad yn ystyried maint yr amgylchedd adeiledig, hanes damweiniau, data arolwg cyflymder a geometreg y ffordd a'i chyffyrdd.

GORCHYMYN SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL) (FFYRDD CYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER 30 MYA) (DIWYGIAD Rhif 4) 2022

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 82, 83 ac 84 a rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Bydd Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig a Therfyn Cyflymder o 30mya) 2017' yn weithredol fel bod, yn Atodlen 1 a 2, y canlynol yn berthnasol:

Atodlen 1 – Ffyrdd Cyfyngedig (30mya yn berthnasol)

1. Yn Atodlen 1, mewnosodwch:

1.32A.0	Hodgeston		
	U6341		O bwynt 242 metr i'r de o'r gyffordd â'r A4139 (G).
	U6341 Church View		O'r gyffordd â'r A4139 (D) i bwynt 102 metr i'r gorllewin.

Atodlen 2 – Terfyn Cyflymder o 30mya

2. Yn Atodlen 2, mewnosodwch:

2.15A.0	Hodgeston		
	A4139		O'r gyffordd â'r U6341, i'r gorllewin am 110 metr a 244 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r U6341 Church View.

2. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig a'r Terfyn Cyflymder 30mya) (Diwygiad Rhif 4) 2022' a daw i rym ar y xxxed diwrnod o XXXX Dwy Fil Dau Ddeg a Dau.

RHODDIR o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y xxx diwrnod hwn o XXXXXX, Dwy Fil Dau Ddeg a Dau.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO
ym mhresenoldeb:

Llofnodwr Awdurdodedig